# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Y Cynghorydd Martyn Jones YH** **Ward: Cwm Garw**

## Plaid: Llafur

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Gorffennaf 2024**. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**

Cefais fy ethol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Cwm Garw ym mis Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni, gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi nifer o ymholiadau gan etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Heddlu De Cymru a'r gymdeithas dai V2c. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.

Mae rhagor o wybodaeth am fy rolau, fy nghyfrifoldebau a'm gweithgareddau ar gael drwy ddilyn y ddolen hon:

Y Cynghorydd Martyn Jones

**<u>Gweithgarwch yn yr Etholaeth</u>**

Mae 'Uno Wardiau' fel sy'n cael ei argymell a'i weithredu gan Lywodraeth Cymru yn creu llawer o heriau daearyddol. Mae tri chynghorydd bellach yn gwasanaethu ardal o Heol y Ddinas Betws i'r de o'r Ward i Garn Blaengarw sydd yng ngogledd y Ward. Mae cymunedau Shwt, Betws, Llangeinwyr, Lluest, Pont-y-rhyl, Pontycymer a Blaengarw i gyd yn rhan o'r maes cyfrifoldeb hwn. Er gwaethaf yr heriau hyn, cefnogir y preswylwyr gydag ymholiadau cyffredinol, er enghraifft, ymweliadau cartref a chyfarfodydd cymunedol.

**<u>Mentrau a Gweithgareddau Arbennig</u>**

Yr wyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr o nifer o glybiau chwaraeon yn y cwm gan gynnig cyngor ac arweiniad ar sut y gallant ddatblygu eu cyfleusterau, yn enwedig ynghylch polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| |
|---|
| Mae dau glwb ym Metws a Llangeinwyr wedi elwa o fuddsoddiad cyhoeddus sylweddol ac maent bellach mewn sefyllfa dda i ehangu cyfleoedd ar gyfer pob grŵp oedran. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau cytundebau arian cyfatebol gyda Chyngor Cymuned Cwm Garw.<br><br>Rwy'n parhau i gefnogi pedair Ysgol Gynradd fel aelod o'r Corff Llywodraethu.<br>Mae Ffederasiwn Ysgolion Cynradd Cwm Garw yn mynd o nerth i nerth a dim ond yn ddiweddar y penodwyd Pennaeth Arweiniol Strategol newydd. Yr wyf yn dal wedi ymrwymo'n gadarn i gefnogi'r Ffederasiwn i sicrhau bod pob plentyn oed cynradd yn y cwm yn cael yr addysg orau. |
| **<u>Gweithgareddau/Materion Eraill</u>**<br><br>Mae fy rôl fel Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol Dros Dro yn Ysgol Gynradd Cwm Ogwr bellach yn dod i ben. Mae'r ysgol bellach allan o fesurau arbennig Estyn ac mae Corff Llywodraethu Cysgodol newydd ar waith i gefnogi'r ysgol yn y dyfodol.<br><br>Ym mis Mai 2024 cefais fy mhenodi'n Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid. |
| **Y Cynghorydd Martyn Jones     Dyddiad: 1 Awst 2024** |